Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Tremeirchion
# Tremeirchion
# Llanelwy
# Sir Ddinbych
# LL17 0UD

**Dyddiad yr arolygiad: Mis Tachwedd 2011**

**gan**

**Mr Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru yw Ysgol Tremeirchion sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg i blant pentref Tremeirchion ei hun a'r ardal wledig o'i gwmpas. Mae'r adeilad gwreiddiol a godwyd dros gant a hanner o flynyddoedd yn ôl ac a addaswyd yn 2003 yn cynnwys pedair ystafell ddosbarth yn ogystal â chae chwarae helaeth.

Yn ôl yr ysgol, daw'r disgyblion o gefndir cymdeithasol nad yw'n llewyrchus nac ychwaith o dan anfantais economaidd. Ar hyn o bryd, nid oes yr un disgybl yr hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim nag y gofelir amdano gan yr awdurdod lleol.

Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir gartref gan oddeutu 14 y cant o ddisgyblion. Prif gyfrwng addysgu a dysgu'r ysgol yw Cymraeg.

Mae niferoedd disgyblion wedi gostwng ers yr arolygiad diwethaf a gynhaliwyd yn Chwefror 2006. Ar hyn o bryd mae 39 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ynghyd â phedwar ar ddeg plentyn meithrin rhan-amser yn yr ysgol. Maent wedi'u trefnu mewn tri dosbarth o oedrannau cymysg. Nid oes yr un disgybl o grŵp ethnig nag ychwaith sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae'r disgyblion yn cwmpasu ystod lawn o allu ac mae eu cyraeddiadau yn amrywio pan ddechreuant yn yr ysgol. Mae oddeutu 13 y cant y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sydd ychydig yn is na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Nid oes yr un disgybl â datganiad statudol o anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Tremeirchion yn 2011-2012 yn golygu cyllideb o £5100 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd awdurdod Sir Ddinbych yw £9248 a'r isafswm yw £2719. Mae ysgol gynradd Tremeirchion yn 12fed o'r 52 ysgol gynradd Awdurdod Sir Ddinbych o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Yn dilyn cyfnod o ansefydlogrwydd, penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd yn Ionawr 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- safonau llythrennedd yn dda gyda'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn drwy'r ysgol;
- disgyblion o bob oedran yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn ymddwyn yn dda:
- ansawdd addysgu ar y cyfan, yn dda; a bod
- ansawdd uchel y profiadau dysgu yn ysgogi disgyblion i wneud cynnydd da.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- ansawdd arweinyddiaeth yn dda;
- y trefniadau hunan-arfarnu a sefydlwyd yn ddiweddar yn debygol o arwain at welliannau pellach;
- yr holl staff yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn fodlon rhoi cynnig ar fentrau newydd; a bod
- yr ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach mae angen i'r ysgol:

- weithredu strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn fwy cyson;
- anelu at gynyddu'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefelau 3 a 5; a
- parhau i ddatblygu rôl cydlynwyr cwricwlaidd.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau llythrennedd disgyblion o bob oedran yn dda. Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud yn ystod sesiynau torfol ac yn mynegi eu syniadau'n hyderus a chywir. Mae ganddynt ddiddordeb mewn llyfrau gyda'r rhan fwyaf yn dewis llyfrau'n annibynnol ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau i'w galluogi i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 1, mae llawer wedi dechrau ysgrifennu mewn modd confensiynol ac yn defnyddio geiriau, ymadroddion a brawddegau yn effeithiol i gyfathrebu eu syniadau.

Mae'r holl ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwrando'n ofalus yn ystod gwersi ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau grŵp a dosbarth. Mae'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr hyderus ac, erbyn diwedd y cyfnod allweddol, yn cywain gwybodaeth yn drefnus o wahanol ffynonellau, megis llyfrau a gwefannau. Erbyn Blwyddyn 5, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n fedrus at nifer o ddibenion ac yn arddangos rhuglder a chywirdeb cynyddol yn eu gwaith.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau datrys problemau da ac mae hyn yn cael effaith cadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau maent yn eu cyflawni. Mae eu medrau meddwl yn datblygu'n addas.

Nifer fechan iawn o ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol a aseswyd ar ddiwedd y flwyddyn addysgol ddiwethaf. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gan mwyaf, mae disgyblion y ddau gyfnod allweddol wedi cyflawni'n ar lefel uwch o gymharu â meincnodau cenedlaethol ac ysgolion tebyg. Er mai cyfran fechan iawn o ddisgyblion sy'n cyflawni ar lefel 3 yng nghyfnod allweddol 1 a lefel 5 yng nghyfnod allweddol 2, ni welwyd unrhyw dystiolaeth o dangyflawni gan unrhyw grwpiau o ddisgyblion yn ystod arsylwi gwersi. Mae merched a bechgyn yn y ddau gyfnod allweddol yn perfformio cystal â'i gilydd.

Mae disgyblion ym mhob dosbarth yn rhoi o'u gorau mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae bron pob un yn canolbwyntio a dyfalbarhau ar eu tasgau, maent yn effro i holi a gofyn cwestiynau ac yn gweithio'n gynhyrchiol gan ddefnyddio'u hamser yn effeithiol. Er bod disgyblion yn trafod eu tasgau yn hyderus, nid yw gallu llawer ohonynt i ddadansoddi cryfderau eu gwaith ac adnabod yr hyn sydd angen ei wneud i'w wella, wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwy galluog a thalentog, yn gweithio i'w llawn botensial.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel. Mae ymddygiad yn dda ymhob dosbarth gyda disgyblion yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd a thuag at oedolion. Mae ethos yr ysgol yn un hapus a chadarnhaol ac nid oes pryder am unrhyw gamdriniaeth neu fygythiad heriol.

Yn ystod gwersi, mae disgyblion o bob oedran yn weithgar a brwdfrydig ac yn wynebu heriau a dysgu newydd yn hyderus. Maent yn cydweithio’n gytûn ac yn cadw’n ddiwyd ar dasg dros gyfnod estynedig. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw’n iach ac maent yn gwerthfawrogi’r cyfleoedd i gael bwydydd iachus ac i ddatblygu ffitrwydd.

Wrth iddynt aeddfedu, mae’r rhan fwyaf yn mwynhau ac yn elwa o amrywiaeth o brofiadau a chyfleoedd i ymgymryd â chyfrifoldebau, gan gynnwys y cyngor ysgol a’r grŵp eco. Mae gan y cyngor rôl weithredol ym mywyd yr ysgol a'r aelodau'n mwynhau’r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu a gwneud penderfyniadau

Mae cyfraddau presenoldeb yn gyson dda ac yn amlach na pheidio, yn uwch na chyfraddau Cymru gyfan a’r rheini ar gyfer ysgolion tebyg.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ystod eang o brofiadau dysgu a ddarperir yn bodloni anghenion y disgyblion, cyflogwyr a’r gymuned yn llwyddiannus. Mae gweithgareddau allgyrsiol amrywiol yn ychwanegu at y profiadau yma. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae’r ehangder o brofiadau dysgu diddorol ac ysgogol a gynllunnir yn galluogi plant i wneud cynnydd da tuag at fodloni’r deilliannau dysgu angenrheidiol. Mae’r ardal allan yn cael ei ddefnyddio i bwrpas i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog i blant. Mae cynllunio gofalus yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion ac yn sicrhau dilyniant a pharhad yn eu dysgu.

Mae gan y Cwricwlwm Cymreig le canolog yn rhaglen waith yr ysgol a gwneir defnydd effeithiol o bobl leol i ddarparu profiadau a gweithgareddau niferus ac ysgogol. Mae’r cwricwlwm yn galluogi’r disgyblion i ddatblygu llawer o fedrau personol a chymdeithasol ac yn hybu dealltwriaeth gadarnhaol o’u diwylliant a’u hamgylchedd.

Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau allweddol, ac yn arbennig medrau llythrennedd, wedi'u cynllunio'n drylwyr trwy’r ysgol. Mae'r rhaglenni ymyrraeth a anelir at ddisgyblion sydd â medrau llythrennedd isel, yn galluogi'r disgyblion hyn i gaffael y medrau angenrheidiol sydd eu hangen ar gyfer cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach.

Gan mwyaf, mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o gynaladwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw rôl yr eco-bwyllgor wedi'i ddatblygu i'w llawn botensial.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda gyda’r athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu yn effeithiol wrth gyflwyno gwersi’n fywiog a llawn brwdfrydedd. Mae gweithgareddau’n cael eu cynllunio’n fanwl a phwrpasol ac mae cyfleoedd niferus i ddisgyblion drafod a mynegi barn. Caiff ystod eang o adnoddau dysgu eu defnyddio’n feddylgar er mwyn ennyn diddordeb ac ysgogi dysgu. Ar draws

yr ysgol, gwneir defnydd da o gwestiynu i ymestyn medrau meddwl disgyblion ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Ymhob dosbarth, mae perthnasau clos rhwng oedolion a disgyblion ac anogir ymddygiad da mewn ffordd gadarnhaol ac adeiladol. Mae staff cymorth yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn rhoi cynhaliaeth dda i ddisgyblion.

Mae asesu yn y Cyfnod Sylfaen yn drylwyr a defnyddir yr wybodaeth yn bwrpasol iawn i fwydo'r cynllunio i'r dyfodol. Yng nghyfnod allweddol 2, caiff nifer o strategaethau asesu eu defnyddio'n effeithiol i hyrwyddo dysgu ac i roi adborth adeiladol i ddisgyblion ar ansawdd eu gwaith. Mae'r cofnodion clir a gedwir ar bob disgybl yn cael eu defnyddio'n fedrus i olrhain cynnydd, cymharu deilliannau â meincnodau lleol a chenedlaethol ac i adnabod unigolion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae adborth llafar a marcio athrawon yn galluogi'r disgyblion i ddeall pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn mae angen iddynt wneud i wella. Mae adroddiadau blynyddol disgyblion o ansawdd da gyda chyfleoedd priodol i ddisgyblion a rhieni i ymateb i'r sylwadau.

Mae'r athrawon yn ddiweddar wedi rhoi blaenoriaeth uchel i sefydlu strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn eu dosbarthiadau ond ar hyn o bryd nid yw'r strategaethau hyn wedi gwreiddio'n ddigon dwfn yn arferion dysgu ac addysgu pob dosbarth.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles y disgyblion yn dda. Darperir amgylchedd cynnes a chroesawgar ar gyfer y disgyblion, ac mae staff yn sicrhau bod anghenion pob unigolyn yn cael eu diwallu. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol i sicrhau bod disgyblion yn ddiogel a'u bod yn cyflawni eu lles emosiynol a chorfforol yn llwyddiannus. Caiff disgyblion eu hannog i fwyta'n iachus a thrwy weithgareddau corfforol a chlybiau ar ôl ysgol, cânt amrywiaeth eang o gyfleoedd i gynyddu lefelau eu ffitrwydd ac iechyd. Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb da yn gyson ac yn sicrhau bod disgyblion a rhieni'n ymwybodol o'i disgwyliadau.

Trwy ystod eang o brofiadau, caiff datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei hyrwyddo'n llwyddiannus. Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael i ddisgyblion a rhieni am fywyd yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys prosbectws yr ysgol, cylchlythyrau rheolaidd ac adroddiad blynyddol y llywodraethwyr.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Caiff anghenion disgyblion eu hadnabod yn gynnar gan yr athrawon ac mae cynlluniau addysg unigol o ansawdd da gyfer pob disgybl. Cânt eu hadolygu'n gyson mewn ymgynghoriad â'r rhieni a'r asiantaethau arbenigol priodol. Mae'r ysgol yn ddiweddar wedi dechrau defnyddio data perfformiad yn fwy pwrpasol ar gyfer adnabod disgyblion mwy abl a thalentog.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol, lle caiff disgyblion fynediad cyfartal i'r holl ddarpariaeth addysgol a chymdeithasol. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth a chreu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau perthnasol o ansawdd da sydd wedi'i weddu'n briodol ar gyfer yr holl ystod oedran a gallu.

Mae'r adeilad o ansawdd da ac mae'r ysgol yn defnyddio pob gofod i bwrpas ac er lles disgyblion. Mae'r ardal allan ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Blwyddyn 2 yn adnodd gwerthfawr a diddorol sy'n cynnig amrywiaeth o brofiadau ysgogol i ddisgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweiniad a rheolaeth fedrus y pennaeth yn ffactor allweddol i'r safonau da a gyflawnir gan ddisgyblion o bob oedran. Mewn cyfnod cymharol fyr, mae wedi llwyddo i harneisio ymrwymiad staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yn hynod effeithiol a rhoi synnwyr cryf o bwrpas a chyfeiriad i ddatblygiad yr ysgol.

Mae gan y pennaeth a'r staff wybodaeth dda o'r ysgol a gweledigaeth glir ynglŷn â sut i'w gwella. Mae ganddynt ymrwymiad personol cryf i'w ffyniant a thrwy gydweithio agos, maent yn gyson yn archwilio ffyrdd o godi safonau cyflawniad disgyblion a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Trwy drefniadau rheoli perfformiad trylwyr, caiff anghenion hyfforddi a datblygu staff ynghyd ag anghenion yr ysgol eu hadnabod a'u diwallu'n effeithiol. Er bod athrawon yn ysgwyddo cyfran dda o gyfrifoldebau, annatblygedig yw eu rôl fel cydlynwyr cwricwlaidd.

Bellach, mae gweithdrefnau clir ar gyfer sicrhau y cyflawnir yr holl ofynion statudol a bod rhediad dydd i ddydd yr ysgol yn esmwyth. Caiff yr ysgol ei gweinyddu a'i threfnu'n effeithiol.

Mae'r llywodraethwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n gydwybodol iawn. Mae'r ymweliadau dosbarth rheolaidd ynghyd â'r adroddiadau manwl a gânt gan y pennaeth, yn rhoi adnabyddiaeth dda iddynt o gryfderau ac anghenion datblygu'r ysgol. Caiff eu cynnwys yn llawn yn holl benderfyniadau strategol yr ysgol ac maent yn ymgymryd â'u cyfrifoldeb fel cyfaill beirniadol i'r ysgol yn effeithiol. Mae gan y corff llywodraethu bolisi a threfn briodol ar gyfer ymateb i gwynion

Gydag arweiniad y pennaeth, mae'r ysgol yn ddiweddar wedi rhoi sylw manwl yn ei rhaglen waith i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae bellach wrthi'n gweithio tuag at wobr aur yr Eco Ysgolion a phedwaredd ddeilen yr Ysgol Iach. Yn ddiweddar, mae athrawon wedi dechrau ymgorffori nifer o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn eu gwaith. Fodd bynnag, mae'r agweddau hyn yn eu dyddiau cynnar o ddatblygiad. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi sefydlu'n gadarn iawn yn niwylliant yr ysgol ac yn cael effaith cadarnhaol ar ansawdd profiadau dysgu disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau hunan-arfarnu a chynllunio strategol yn rhan reolaidd o fywyd a gwaith yr ysgol gyda staff yn ymdrechu'n barhaus i wella ar berfformiad blaenorol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddangosyddion gan gynnwys tystiolaeth gan asiantaethau eraill megis gwasanaeth ymgynghorol yr awdurdod lleol, wrth ddod i farn am berfformiad cyfredol.

Defnyddir data perfformiad yn effeithiol ac yn gyson i fonitro cynnydd a chynllunio ar gyfer gwella safonau. Mae'r ysgol yn gofyn barn disgyblion, rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach yn rheolaidd ac yn ystyried yn ofalus unrhyw awgrymiadau a wneir. Mae'r broses hon yn sicrhau gwelliant cynyddol.

Er bod hunan-arfarnu yn ei ddyddiau cynnar o ddatblygiad, mae'r prosesau a sefydlwyd yn ddiweddar eisoes wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar gynlluniau'r ysgol ar gyfer cynnal gwelliannau. Mae adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol yn cyfleu darlun gonest o'i sefyllfa gyfredol ac yn nodi'n glir y meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach.

Mae cymuned ddysgu broffesiynol gref wedi sefydlu yn yr ysgol ac yn ddiweddar, wedi bod yn offeryn allweddol ar gyfer hyrwyddo gwelliannau. Mae cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer sefydlu cymunedau dysgu gyda nifer o bartneriaid eraill, ond nid ydynt eto wedi eu rhoi ar waith.

Gwnaed cynnydd da gan yr ysgol ers arolygiad 2005 wrth iddi fynd i'r afael a bron pob un o'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad. Mae datblygu rôl cydlynwyr cwricwlaidd yn parhau'n flaenoriaethau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau strategol defnyddiol. Mae perthynas dda iawn â'r rhieni. Maent yn cynorthwyo yn rheolaidd gyda gwersi darllen a gweithgareddau allgyrsiol a chânt ran weithredol wrth drafod targedau gwelliant eu plant. Mae cysylltiadau clos gyda'r gymuned leol, sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd yr addysg. Mae cysylltiadau gydag asiantaethau amrywiol yn hybu lles disgyblion yn addas.

Mae'r cysylltiadau pontio cryf iawn sydd rhwng y cylch meithrin a'r ysgol yn sicrhau bod plant meithrin yn ymgartrefu'n gyflym i fywyd yr ysgol a bod dilyniant a pharhad yn eu dysgu. Bydd yr ysgol hefyd yn cydweithio'n glos gyda chlwstwr o ysgolion cynradd y dalgylch ynghyd â nifer o ysgolion eraill, i gynllunio ar y cyd, rhannu profiadau a chyfnewid arferion. Mae cydweithio agos â'r ysgol uwchradd leol ar gyfer cymedroli asesiadau athrawon a pharatoi'r disgyblion hŷn ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff staffio ac adnoddau eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi a gwella dysgu. Mae'r ysgol yn defnyddio staff addysgu a staff cymorth yn dda trwy fanteisio'n llawn ar eu hamser a'u harbenigedd i ymdrin â phob agwedd o'r cwricwlwm. Caiff effaith yr adnoddau ar addysgu a dysgu eu hadolygu'n gyson a chynllunnir yn fanwl ar gyfer

anghenion yn y dyfodol. Mae trefniadau cyllidebu systematig a chywir yn eu lle ac mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau ar gyfer gwella a lles y disgyblion. Mae deilliannau disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 1 yn ystod dwy o'r pum mlynedd ddiwethaf, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 (y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad ar gyfer disgyblion saith oed) wedi bod yn y 25% uchaf o gymharu â'r meincnodau lleol a chenedlaethol ac o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn ystod gweddill y cyfnod mae'r perfformiad wedi bod yn y 50% isaf o ysgolion.

Mae canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 2 mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf yn gadarnhaol iawn gyda chanran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 neu uwch (y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg/Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad) yn y 25% uchaf o gymharu â'r meincnodau cenedlaethol ac o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, cyfran fechan iawn o ddisgyblion sy'n cyflawni ar lefel 3 yng nghyfnod allweddol 1 a lefel 5 yng nghyfnod allweddol 2 yn ystod y cyfnod. Mae bechgyn a merched yn cyflawni cystal â'i gilydd.

Oherwydd mai nifer fechan o ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol a aseswyd ar ddiwedd y flwyddyn addysgol ddiwethaf (2011), ni ellir cymharu perfformiad yr ysgol â meincnodau lleol a chenedlaethol.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Holiaduron y rhieni

Llenwodd ugain o rieni'r holiaduron cyn-arolygiad, sef oddeutu tri chwarter o deuluoedd yr ysgol. Roedd 18 o'r holiaduron yn mynegi bodlonrwydd llwyr ynghylch yr ysgol gyda'r rhieni yn dweud bod:

- eu plentyn yn hoffi'r ysgol, yn gwneud cynnydd da ac wedi cael cymorth da i ymgartrefu pan ddechreuodd yn yr ysgol;
- ymddygiad disgyblion yn dda, bod disgwyl iddynt weithio'n galed a'u bod yn cael eu parchu gan staff;
- addysgu'n dda gyda'r ysgol yn helpu eu plentyn i aeddfedu ac i ysgwyddo cyfrifoldeb;
- yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a bod rhieni'n derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn; a bod
- plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol uwchradd.

Teimlai nifer fechan iawn o rieni eu bod yn ansicr o ddisgwyliadau'r ysgol o ran gwaith cartref.

Holiaduron disgyblion

Roedd y rhan fwyaf o'r ugain o holiaduron dysgwyr a lenwyd yn mynegi agweddau cadarnhaol iawn tuag at yr ysgol. Dywed disgyblion eu bod yn:

- teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni;
- cael llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff rheolaidd ac yn cael eu dysgu i fod yn iach; a'u bod yn
- derbyn cymorth da gan staff i'w helpu i ddysgu a'u bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol.

Roedd rhai dysgwyr o'r farn nad oedd pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser cinio ac amser chwarae ac nad oedd gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mr W Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs H Hughes | Arolygydd Tîm |
| Mr D Jones | Arolygydd Lleyg |
| [Enw] | Arolygydd Cymheiriaid |
| [Enw] | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |